
Straeon Mudo Caerdydd



*Llun diolch i Valentine Rascon ©*

# Valentine

Mae Valentine yn byw yng Nghaerdydd. Roedd ei dad yn llysgennad Sbaenaidd a fu farw'n 40 oed. Ef oedd Llywydd y Carrera de Toros (ymladd teirw) ac mae gan Valentine ddiddordeb mawr yn hyn hefyd.

## Nain Valentine

Roedd ei Nain, Catherine, yn actores Shakespearaidd o Iwerddon. Roedd yn ffrind i'r enwog Lily Langtry. Symudodd i Gaerdydd â'i 4 plentyn, a thad Valentine (5 oed) pan fu farw ei gŵr. Dywedodd mai ffugenw Catherine oedd 'St Teresa of Tiger Bay' am iddi wneud cymaint i helpu tlodion Tiger Bay.

## Tad Valentine

Roedd tad Valentine, Joseph, yn hanner Sbaenwr ac yn hanner Gwyddel. Fe'i ganed ym Milbao yn Sbaen. Roedd bywyd yn galed am

eu bod yn dlawd, ond llwyddodd ei fam sicrhau bod ei mab yn cael addysg. Cafodd waith yn Noc Sych Mount Stuart ond sylweddolodd y gallai ennill mwy fel morwr ar longau tal. Roedden nhw'n chwilio am forwyr heini a allai ddringo a delio â'r rhaffau ym mhob tywydd, a oedd yn waith peryglus iawn, felly cawson nhw eu talu 'arian perygl'.

Roedd yn Rwsia yn forwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf pan gafodd wybod bod ei fam (Nain Valentine), Catherine, wedi marw. Roedd y daith yn ôl i Gaerdydd yn un anodd. Erbyn iddo ddychwelyd, roedd ei chwaer wedi gwerthu'r tŷ a symud felly nid oedd ganddo rywle i fyw. Aeth i fyw at deulu yn Nhreganna, a dyna lle cyfarfu tad Valentine â'i fam (Nelly).

Mam Valentine (Nelly)

Roedd yn hanner Swediad ac yn hanner Saesnes (o Wlad yr Haf). Dim ond un plentyn gafodd hi (Valentine). Aeth i feithrinfa yn Beecham Street a chafodd ei haddysgu gan athrawes o India oedd wedi ymddeol.

Arferai ei fam fynd â Valentine i ddawnsiau yng Ngwesty a Bwyty'r Carlton (gyferbyn ag Adeilad y Principality yn Heol-y-Frenhines). Arferai bandiau o Lundain chwarae yno. Cadwai'r staff e'n hapus wrth i'w fam ddawnsio, felly o oedran cynnar iawn dysgodd gwrteisi'r bwrdd bwyd, a pha wydrau i'w defnyddio, ers cyn iddo allu darllen ac ysgrifennu!

Valentine

Fe'i ganed yn Avoca Place, Grangetown, Caerdydd ym 1921.

Roedd hen siop yn yr adeilad un tro a drowyd yn llawr dawnsio bach, a byddai bandiau o Lundain yn chwarae yno hefyd. Mrs Maza (o deulu cyfoethog o'r Ariannin) oedd yn berchen arni.

“Rwy’n mynd i Sbaen yn aml ac yn siarad Sbaeneg”. Roedd ganddo lanhawraig a oedd am fod yn nyrs ond ni allai gael gwaith fel un am na siaradai Saesneg, felly dysgodd wrth weithio i Valentine.

“Does gen i ddim teulu, bu farw fy ngwraig bum mlynedd yn ôl, felly does neb ar ôl.

“Ymrestrais â’r llu awyr yn ddeunaw oed ar ddechrau’r rhyfel, ond am fod dad yn Sbaenwr allwn i ddim bod yn y lluoedd arfog ond i hedfan awyrennau, ac am fod dad o dramor doeddwn i ddim yn cael defnyddio gwn".

Mae Valentine wrth ei fodd â diwylliant Sbaen, yn enwedig cerddoriaeth tango a dawnsio ac ymladd teirw.  Ond mae’n hoff o gynhesrwydd a gonestrwydd pobl Cymru – pa mor annwyl ydyn nhw. Dyma pam ddewisodd ei nain, Catherine, ddod i Gymru â’i theulu ifanc a bwrw gwreiddiau yma.



*Mae Valentine yn y rhes flaen – y trydydd o’r chwith.*

*Llun - diolch i Valentine Rascon ©*

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Cardiff Story Museum
Amgueddfa Stori Caerdydd

Happy Together - Learning for Life
TON-YR-YWEN
Dysgu Hapus - Dysgu Byw